

E-lawlyfr 1

SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

Adnodd 2

*Systemau
Etholiadol yn y DU*

**Cyflwyniad,
Gwybodaeth Graidd
a Llawlyfr Gwaith**

CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr israddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Nodir awdur(on) penodol pob adnodd ar waelod y dudalen hon. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru wedi bod yn bartner yn y prosiect o'r dechrau.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid y bwriad oedd cynhyrchu gwerslyfr swmpus, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon. O'r herwydd, mae tair elfen i bob adnodd:

**: Gwybodaeth Graidd a Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion
(sydd wedi eu cyfuno yn achos yr adnodd hwn)**

: Canllaw i Athrawon

Mae E-lawlyfr 1 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol wedi'u teilwra i Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Dylid nodi nad yw'r 8 adnodd yn cwmpasu'r holl feysydd yn y fanyleb. Yn hytrach, penderfynwyd ar gynnwys yr 8 adnodd drwy asesu meysydd lle roedd galw am ddeunydd astudio Cymraeg, gan gynnwys ymgynghori ag athrawon.

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 1 isod, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb Uned 2: 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth' sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd unigol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>

TEITL YR ADNODD	MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD
Adnodd 1: Cyfranogiad yng Nghymru	2.2.1: Pwysigrwydd cyfranogiad mewn democratiaeth ac effeithiau diffyg cyfranogiad.
Adnodd 2: Systemau Etholiadol yn y DU	2.2.2 Systemau etholiadol yn y DU – Y Cyntaf-yn-y-Ras; Aelod Ychwanegol; systemau etholiadol Rhestrau Pleidiau a Phleidlais Sengl Drosoglwyddadwy: eu manteision a'u hanfanteision gan gynnwys dadleuon ynghylch clymbleidiau a llywodraethau lleiafrifol ac ynghylch tegwch a chyfrannedd.
Adnodd 3: Defnyddio refferenda yng Nghymru	2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU.
Adnodd 4: Ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig	2.2.3: Ymddygiad pleidleisio.
Adnodd 5: Carfanau pwyso 1: Nodweddion a mathau	2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth.
Adnodd 6: Carfanau pwyso 2: Dulliau Dylanwadu	2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth.
Adnodd 7: Mudiadau cymdeithasol 1: Nodweddion a mathau	2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth.
Adnodd 8: Mudiadau cymdeithasol 2: Dulliau Dylanwadu	2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth.

Awduron yr adnodd:

Gareth Jones, Ysgol Gyfun Bro Myrddin

Dr. Elin Royles, Prifysgol Aberystwyth

Golygwyd E-lawlyfr 1 gan Dr. Elin Royles.

GWYBODAETH GRAIDD

Etholiadau

Mae etholiadau yn rhan ganolog o'r broses ddemocrataidd gan ddarparu modd i bobl gymwys gyfranogi yn y broses wleidyddol.

Un o brif themâu'r adnodd hwn yw gwerthuso systemau etholiadol gwahanol yn y DU gan nodi eu manteision a'u hanfanteision. Un o'r rhesymau pam mae trafod systemau etholiadol gwahanol yn bwysig yw bod modd meddwl am etholiad fel cystadleuaeth, gyda systemau etholiadol gwahanol fel rheolau'r cystadlu a'r rhain yn gallu dylanwadu'n ddramatig ar y canlyniad terfynol.

Y system sy'n cael ei defnyddio ar gyfer Etholiadau Cyffredinol y Deyrnas Unedig yw Cyntaf yn y Ras (CYFR). Mae'r tabl isod yn dangos nifer y pleidleisiau, canran y bleidlais, nifer y seddi a chanran y seddi a enillodd pob plaid ar draws y Deyrnas Unedig yn Etholiad Cyffredinol 2015.

LLAWLYFR GWAITH

TABL 1: ETHOLIAD CYFFREDINOL 2015

PLAID	NIFER PLEIDLEISIAU	Y GANRAN BLEIDLEISIO	NIFER Y SEDDI YN NHŶ'R CYFFREDIN	CANRAN Y SEDDI
Ceidwadwyr	11,334,576	36.9%	331	50.9%
Llafur	9,347,304	30.4%	232	35.7%
SNP	2,415,862	4.7%	56	8.6%
UKIP	3,881,099	12.6%	1	0.2%
DUP	184,60	0.6%	8	1.2%
Dem Rhydd	2,415,862	7.9%	8	1.2%
Plaid Cymru	181,704	0.6%	3	0.5%
Gwyrdd	1,157,260	3.8%	1	0.2%

(Data: bbc.co.uk/election2015)

CWESTIWN 1

O dan system gyfrannol bur byddai y ganran bleidleisio a enillid gan blaid yn cael ei hadlewyrchu yn union nifer y seddi y byddai'r blaid yn eu hennill yn y Senedd. Dadl amlwg yn erbyn CYJR yw ei fod yn ystumio'r (*distort*) canlyniad gwreiddiol mewn modd annerbyniol. Gan ddefnyddio Tabl 1, nodwch **dair** ffaith sy'n amlygu annhegwch cyfrannol y CYJR fel system etholiadol.

1

2

3

TABL 2: SENEDD SAN STEFFAN O DDEFNYDDIO SYSTEMAU ETHOLIADOL GWAHANOL AR SAIL CANLYNIAD ETHOLIAD CYFFREDINOL 2015 A 650 SEDD YN Y SENEDD

	CEIDWADWYR	LLAFUR	DEMOCRATAID RHYDDFRYDOL	SNP	PLAID CYMRU	UKIP	GWYRDD	YR OPSIYNAU LLYWODRAETH?
Cyntaf yn y Ras	331	232	8	56	3	1	1	
Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy	276	236	26	34	3	80	3	
Pleidlais Amgen	337	227	9	50	3	1	1	
System Rhestrau	242	208	47	30	5	54	20	

(Data: *The UK General Election 2015 In-depth* gan y Gymdeithas Newid Etholiadol)

TABL 3: CANRAN Y SEDDI O DAN SYSTEMAU ETHOLIADOL AMGEN GAN DDEFNYDDIO CANLYNIAD ETHOLIAD CYFFREDINOL 2015

	CEIDWADWYR	LLAFUR	DEMOCRATAID RHYDDFRYDOL	SNP	PLAID CYMRU	UKIP	GWYRDD
Canran Bleidleisio	36.9	30.4	7.9	4.7	0.6	12.9	3.8
Cyntaf yn y Ras	50.9	35.7	1.2	8.6	0.5	0.2	0.2
Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy	42.5	36.3	4	5.2	0.5	8.3	0.5
Pleidlais Amgen	51.8	34.9	1.3	8.3	0.5	0.2	0.2
System Rhestrau	37.2	32	7.2	4.6	0.8	12.3	3.1

CWESTIWN 2

Pa system yw'r orau o ran sicrhau tegwch cyfrannol?

CWESTIWN 3

Darllenwch y wybodaeth yn y tabl isod sy'n nodi'r dadleuon o blaid ac yn erbyn CYRR.

TABL 4. DADLEUON O BLAID AC YN ERBYN CYNTAF YN Y RAS

<p>A. Mae'r pleidiau buddugol yn cael eu gorgynrychioli. Yn 2005, cafodd y Blaid Lafur 35% o'r bleidlais ar draws y Deyrnas Unedig ond fe enillon nhw 55% o'r seddi. Yn 1997, cawson nhw 43.2% o'r bleidlais ac ennill 63.6% o'r seddi yn San Steffan. Nid yw'n system gyfrannol ac felly mae'n system annheg.</p>	<p>B. Yn draddodiadol, mae Cyntaf yn y Ras yn creu llywodraeth gref sydd yn gallu rheoli'r wlad yn syth wedi'r etholiad. Cyn Etholiad Cyffredinol 2017, roedd y system wedi creu llywodraeth â mwyafrif seneddol clir mewn 20 allan o 24 etholiad.</p>
<p>C. Mae yna berthynas agos rhwng etholaethau a'u haelodau seneddol o dan y system hon. Mae pobl yn ymwybodol pwy yw eu Haelod Seneddol ac felly mae'n glir sut i gael mynediad i'r system wleidyddol. Ni fyddai systemau etholiadol eraill yn sicrhau hyn.</p>	<p>Ch. Yn 1950, 1951 a Chwefror 1974 fe gafodd y blaid fuddugol a ffurfiodd llywodraeth lai o bleidleisiau ar draws y wlad na'u gwrthwynebwyr. Er enghraifft yn 1951, enillodd y Ceidwadwyr 48% a Llafur 48.8% o bleidleisiau ond cafodd y Ceidwadwyr 51.36% o'r seddi a chafodd Llafur 47.2% o'r seddi.</p>
<p>D. Mae'r cysyniad o 'fonws yr enillydd' ('<i>Winners' Bonus</i>') yn golygu bod plaid sy'n cael buddugoliaeth fach dros yr ail blaid fel arfer yn cael mwyafrif sylweddol y seddi. Cafodd Llafur fuddugoliaethau sylweddol yn etholiadau 1997 a 2001 a chafodd y Ceidwadwyr yr un profiad yn 1983 a 1987 ar sail buddugoliaethau cymharol fychan.</p>	<p>Dd. O rannu cyfanswm pleidleisiau pob plaid â nifer y seddi a enillwyd ganddynt yn 2010, dyma'r sefyllfa i bob plaid: Ceidwadwyr yn ennill sedd am bob 35,000 o bleidleisiau; Llafur yn ennill sedd am bob 33,00 o bleidleisiau; Democratiaid Rhyddfrydol yn ennill sedd am bob 120,000 o bleidleisiau.</p>
<p>E. Wedi etholiad 2015, roedd 85 Aelod Seneddol yn San Steffan nad oeddent yn aelodau Llafur na Cheidwadwyr. Roedd hyn yn 13% o gyfanswm yr Aelodau Seneddol. Yn 2010, bwriwyd 35% o'r pleidleisiau dros bleidiau gwahanol i'r ddwy brif blaid.</p>	<p>F. Caiff nifer o bleidleisiau eu gwastraffu am nad ydynt yn cyfrannu at ethol Aelod Seneddol. Yn 2005, roedd 52% o bleidleisiau wedi cael eu gwastraffu ar ymgeiswyr aflwyddiannus. Yn ogystal, bwriwyd 18% o bleidleisiau ar ran ymgeiswyr llwyddiannus lle nad oedd angen y pleidleisiau arnynt oherwydd maint eu mwyafrif etholaethol. Esiampl dda o fwyafrif etholaethol yw sedd Gordon Brown yn 2010 pan enillodd fwyafrif o 23,000 yn etholaeth Kirkcaldy and Cowdenbeath.</p>
<p>Ff. Mae Cyntaf yn y Ras yn creu 'anialwch etholiadol' ('electoral deserts'). Hynny yw, mae ardaloedd o'r wlad lle nad oes gan blaid wleidyddol braidd ddim cynrychiolaeth. Yn 2010, enillodd y Ceidwadwyr 17% o'r bleidlais yn yr Alban ond dim ond un sedd. Enillodd Llafur ddim ond 2 o'r 58 sedd yn Nwyrain Lloegr er iddyn nhw ennill bron i 20% o'r bleidlais. Cafodd y Democratiaid Rhyddfrydol 21% o'r bleidlais yn 'Nwyrain Canolbarth Lloegr' ond dim ond un sedd etholaethol.</p>	<p>G. Mae'r system yn hawdd iawn i'w deall. Mae'r etholwr yn rhoi X ar y papur pleidleisio i nodi ei ddewis. Mae sylwebwyr wedi beirniadu'r ddadl hon fel un wan. Fodd bynnag, pan ddefnyddiwyd system etholiadol fwy cymhleth yn etholiadau Senedd yr Alban yn 2007, cafodd 142,000 o bapurau pleidleisio eu gwrthod oherwydd bod pleidleiswyr wedi camddeall y cyfarwyddiadau (7% o'r holl etholwyr).</p>
<p>Ng. Mae Cyntaf yn y Ras yn adlewyrchu ewyllys gyffredinol y bobl. Er nad yw'n fathemategol berffaith, mae'n system sy'n cael gwared â llywodraethau amhoblogaidd, e.e. Llywodraeth Lafur Gordon Brown yn 2010, a'r Ceidwadwyr yn 1997.</p>	<p>H. Nid oes gan y rhan fwyaf o Aelodau Seneddol fwyafrif yn eu hetholaethau. Yn 2010 roedd mwyafrif yr Aelodau Seneddol wedi ennill llai na 33% o bleidleisiau eu hetholaethau.</p>

I. Mae'r system yn golygu bod rhai pleidleisiau yn fwy gwerthfawr nag eraill. Os ydych yn byw mewn etholaeth ymylol (*marginal seat*) yna mae eich pleidlais yn hynod o werthfawr, tra bo gan y pleidleiswyr sydd yn byw mewn seddi diogel lai o ddylanwad. Dangosodd ymchwil y Gymdeithas Diwygio Etholiadol i Etholiad 2010 fod pleidiau yn gwario rhyw £3.10 am bob pleidlais mewn seddi ymylol fel De Luton, a dim ond yn gwario rhyw 14c mewn seddi diogel fel Bootle. Mae hyn yn awgrymu bod pleidleisiau mewn seddi ymylol ryw 22 gwaith yn bwysicach na phleidleisiau mewn seddi diogel. Ydi hyn yn ffactor sy'n esbonio'r ganran bleidleisio isel yn etholiadau'r Deyrnas Unedig yn y blynyddoedd diwethaf?

J. Mae'r system yn dangos tuedd tuag at y Blaid Lafur. Cafodd y Blaid Geidwadol 36% o'r pleidleisiau yn 2010 ond methon nhw â sicrhau mwyafrif o Aelodau Seneddol yn y Senedd. Yn 2005, enillodd y Blaid Lafur 35% o bleidleisiau gan fynd ymlaen i ffurfio llywodraeth â mwyafrif seneddol o 66.

CWESTIWN 5: Ymarferion

i: 'Os oes cymaint o anafanteision i'r system CYRR, oni ddylai'r Deyrnas Unedig ddefnyddio system fwy cyfrannol ar gyfer Etholiadau Cyffredinol?' Trafodwch.

ii: Eglurwch gan roi enghreifftiau beth yw ystyr y term 'senedd grog.'

iii: Eglurwch gan roi enghreifftiau beth yw ystyr y term 'llywodraeth fwyafrifol.'

CWESTIWN 6**Tasg: Ystyried nodweddion y system etholiadol 'Cyntaf yn y Ras' yng nghyd-destun Etholiad 2015**

i: Nodwch nodweddion arferol CYRR.

ii: Rhwch groes ym mhob blwch i ddangos a yw pob ffaith am Etholiad 2015 yn nodweddiadol o sut mae'r system fel arfer yn gweithio?

A. Yn 2015, gwahaniaethwyd yn erbyn (<i>discriminate against</i>) UKIP. Enillodd y blaid 12.6% o'r bleidlais ond dim ond 0.2% o'r seddi. Enillodd yr SNP 50% o'r pleidleisiau yn yr Alban gan gipio 95% o seddi'r Alban.	B. Fe gododd canran y bobl a bleidleisiodd i bleidiau eraill heblaw am Lafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i'w lefel uchaf erioed (24.8%). Yn 2010, roedd y ffigwr yn 11.9%.
C. Fe lwyddodd plaid fechan – y Blaid Werdd – i ennill sedd etholaeth Brighton Pavilion.	Ch. Enillodd y Blaid Lafur a'r Ceidwadwyr eu canran 'arferol' o seddi; sef cyfanswm o 86.6% sy'n debyg iawn felly i lefelau 1997, 2001, 2005 a 2010.
D. Nid oedd y system yn un gyson fwyafrifol ar lefel etholaethol. Cafodd 331 o'r 650 AS eu hethol heb fwyafrif o dros 50% y pleidleisiau yn eu hetholaeth. Enillodd 8 AS gyda llai na 35% o'r bleidlais ac yn Ne Belfast enillodd yr Aelod Seneddol gyda dim ond 24.4% o'r bleidlais. Hon oedd y ganran fuddugol isaf yn hanes etholiadol Prydain.	Dd. Yn 2015, fe greodd y system CYRR lywodraeth un blaid. Ffurfiodd y Ceidwadwyr eu llywodraeth gyntaf ers 1997 (heb ddibynnu ar bartner mewn clymblaid) er iddyn nhw ennill llai na 37% o'r pleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiad. O ystyried yr etholwyr yn eu cyfanrwydd, cafodd y Ceidwadwyr yr hawl i ffurfio llywodraeth fwyafrifol un blaid ar sail 24% o'r bleidlais.
E. Roedd gwerth pleidleisiau'r tair prif blaid yn parhau'n anghyfartal. O gyfrifo nifer y pleidleisiau am bob sedd dyma'r canlyniad: Ceidwadwyr – 34,243 pleidlais am bob sedd Llafur – 40,290 pleidlais am bob sedd Dem Rhydd – 301,983 pleidlais am bob sedd UKIP yn ennill sedd am bob 3.881.099 o bleidleisiau	F. Roedd y ganran bleidleisio yn debyg i'r arfer sef ychydig dros 65%. Mae hyn yn cymharu â chanran is o 59.4% yn 2001 a 2005 ond mae'n is na'r lefelau a welwyd yn yr 1980au a 1990au. Nid oes modd pwysleisio'r ganran bleidlais felly i esbonio'r canlyniad.
Ff. Fe wnaeth y Blaid Lafur yn anghymesur o dda drwy ennill 5.3% yn fwy o seddi nag o bleidleisiau yn 2015. Cafodd y Ceidwadwyr dair gwaith yn fwy o bleidleisiau nag UKIP ond 331 gwaith yn fwy o Aelodau Seneddol.	G. Yn ôl y Gymdeithas Newid Etholiadol, roedd dros 22 miliwn o bleidleisiau wedi eu gwastraffu yn 2015 naill ai wrth bleidleisio dros ymgeisydd aflwyddiannus neu wrth roi mwyafrif mawr diangen i ymgeiswyr llwyddiannus.

Ng. Roedd cwmp sylweddol yn y bleidlais a enillodd y ddwy brif blaid ar draws y DU. Rhwng 1979 a 2005, enillodd y ddwy brif blaid rhwng 70% ac 80% o'r bleidlais. Yn 2010, cwmpodd y cyfanswm hwn i 65%. Cododd rywfaint yn 2015 i 67.3%. Fodd bynnag, ni effeithiodd hyn ar ganran y seddi gan fod Llafur a'r Ceidwadwyr yn parhau i ddominyddu gyda 86.6% o'r seddi.

H. Mynegodd tua 9% o bobl eu bod yn barod i bleidleisio yn dactegol yn Etholiad 2015. Byddai hyn yn cyfateb i bron i 3 miliwn o bobl.

I. Fe wnaeth y pleidiau bach barhau i ddioddef gyda'r Blaid Werdd ac UKIP yn ennill canran llawer yn is o seddi na'u canran o'r bleidlais.

CWESTIWN 7

'Mae gwir angen diwygio systemau etholiadol yn y DU.' Trafodwch.

CWESTIWN 8**Tasg: Tabl Adolygu.**

Datblygwch y tabl canlynol i egluro'r dadleuon yn erbyn Cyntaf yn y Ras.

TABL ADOLYGU: DADLEUON YN ERBYN CYR

DADL YN ERBYN CYR	ESBONIO'R DDADL	ENGHREIFFTIAU I GEFNOGI'R DDADL
Nid yw'n creu canlyniadau mwyafrifol ar lefel etholaethol na chenedlaethol	Anaml mae'r blaid sy'n ennill mwyafrif o seddi yn y Senedd yn ennill mwyafrif y pleidleisiau. O ganlyniad, gellir dadlau nad oes gan y blaid honno fandad i lywodraethu. Yn ogystal, mae nifer o Aelodau Seneddol unigol nad enillodd dros 50% o bleidleisiau yn eu hetholaethau.	1997 – Llafur 43.2% 2001 – Llafur 40.7% 2005 – Llafur 35.3% Glenda Jackson – Hampstead and Kilburn Caroline Lucas – Brighton Pavilion 2015 – Etholaeth De Belfast

Mae modd datblygu tabl cyfatebol gyda dadleuon o blaid CYR (gweler y dudalen nesaf).

Fe fyddai'r ddau dabl gyda'i gilydd yn creu braslun er mwyn ateb y cwestiwn uchod yn effeithiol fel cwestiwn posibl am CYR.

TABL ADOLYGU: DADLEUON O BLAID CYWR

DADL O BLAID CYWR	ESBONIO'R DDADL	ENGHREIFFTIAU I GEFNOGI'R DDADL

CWESTIWN 9

Tasg: Pe bai rhywun yn siarad am y system etholiadol CYJR am 90 eiliad, pa dermau ydych chi'n rhagweld y byddai'r person hwnnw yn debygol o'u defnyddio yn ystod yr araith?

Nodwch 10 term ac yna gofynnwch i bartner i baratoi araith i weld a yw eich syniadau yn cyfateb.

CWESTIWN 10

Tasg: Cwblhewch y tabl isod

	ETHOLIAD	BLE MAE'N CAEL EI DDEFNYDDIO?	CANLYNIAD YR ETHOLIAD MWYAF DIWEDDAR	ESBONIAD CRYNO O SUT MAE'R SYSTEM YN GWEITHIO
CYJR	Cyffredinol	Y Deyrnas Unedig	2017 – Ceidawadwyr yn fuddugol, senedd grog a 318 sedd sef 8 sedd yn llai na mwyafrif	650 o etholaethau. Un bleidlais gan bawb. Tueddiad i greu llywodraeth un-blaid. Cynnal system ddwybleidiol
System Aelodau Ychwanegol (Yr Alban)				
System Aelodau Ychwanegol (Cymru)				
Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy				
System Rhestr Gaeedig				

CWESTIWN 11

Eglurwch gan roi enghreifftiau beth yw ystyr y term etholiad cyffredinol.

SYSTEM AELODAU YCHWANEGOL

Mae'r System Aelodau Ychwanegol (SAY) yn system sy'n cael ei defnyddio ar gyfer Etholiadau i Gynulliad Cymru a Senedd yr Alban. Mae'n gyfuniad o CYYR ac elfennau cyfrannol. Yn ymarferol, mae'n system sy'n gymysgedd o CYYR a rhestrau caeedig pleidiau yn rhanbarthol. Mae gan bleidleiswyr ddwy bleidlais o dan y system hon; un i ddewis ymgeisydd etholaeth a phleidlais ranbarthol ar gyfer plaid (lle mae enwau'r ymgeiswyr ar y rhestrau wedi eu blaenoriaethu gan y pleidiau). Mae'r gymhareb o ran Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol yn amrywio rhwng rhannau datganoledig gwahanol y DU.

	AELODAU ETHOLAETHOL	AELODAU RHANBARTHOL	CYFANSWM
Cymru	40 (67%)	20 (33%)	60
Yr Alban	73 (55%)	56 (45%)	129
Llundain (Cynulliad)	14 (56%)	11 'Llundain gyfan' (44%)	25

Mae nifer yn dadlau bod y SAY yn creu gwahanol fath o wleidyddiaeth i'r CYYR.

CWESTIWN 12

Tasg: Nodwch yn y tabl isod y mathau o lywodraethau sydd wedi eu ffurfio yng Nghymru a'r Alban ers i'r system gael ei defnyddio gyntaf yn 1999.

Hefyd, ymchwiliwch i nifer y pleidiau sydd wedi sicrhau cynrychiolaeth yn seneddau Cymru a'r Alban.

: Oes mwy o bleidiau gwleidyddol yn ennill cynrychiolaeth?

: Ydy'r system wedi arwain at senedd enfys sef ystod eang o bleidiau gwleidyddol â chynrychiolaeth yn y Senedd?

: Yn ogystal, a yw'r system wedi gwella cynrychiolaeth menywod a lleiafrifoedd ethnig fel aelodau etholedig yng Nghymru a'r Alban?

CYMRU

BLWYDDYN	ETHOLIAD	MATH O LYWODRAETH GAFODD EI FFURFIO	PLAID/PLEIDIAU OEDD YN RHAN O'R LLYWODRAETH	NIFER AC ENWAU'R PLEIDIAU A ENILLODD SEDDI YN Y SENEDD	Y GANRAN BLEIDLEISIO
1999					
2003					
2007					
2011					
2016					
2021					

YR ALBAN

BLWYDDYN	ETHOLIAD	MATH O LYWODRAETH GAFODD EI FFURFIO	PLAID/PLEIDIAU OEDD YN RHAN O'R LLYWODRAETH	NIFER AC ENWAU'R PLEIDIAU A ENILLODD SEDDI YN Y SENEDD	Y GANRAN BLEIDLEISIO
1999					
2003					
2007					
2011					
2016					
2021					

EFFEITHIAU CADARNHAOL SYSTEM AELODAU YCHWANEGOL YN YR ALBAN A CHYMRU

MWY O BLEIDIAU YN ENNILL CYNRYCHOLAETH YN Y SENEDD

Senedd yr Alban yn 2003 yn cynnwys
Aelodau Seneddol o 9 plaid wahanol

Dau ymgeisydd annibynnol a phum
plaid heb gynrychiolaeth yn Senedd
San Steffan

MWY O GYNRYCHOLAETH I FENYWOD A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG

Cynulliad Cymru yn 2003, y
ddeddfwrfa gyntaf yn y byd i gael
50% o'u haelodau yn fenywod.
Blwyddyn yn hwyrach enillodd
Trish Law is-etholiad gan arwain
at y ddeddfwrfa gyntaf yn y byd
i gael mwyafrif o fenywod fel
cynrychiolwyr

Fe wnaeth y system ganiatáu ethol
Bashir Ahmad o'r SNP i Senedd yr
Alban. Mae modd cwestiynu a yw'r
SAY wedi effeithio'n ddramatig ar y
nifer yr aelodau o leiafrifoedd ethnig
ym Mae Caerdydd a Chaeredin


CREU DIWYLLIANT GWLEIDYDDOL NEWYDD

Yr Alban yn 1999 a 2003:
llywodraethau clymbleidiol rhwng
Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol

Cymru a'r Alban wedi profi
llywodraeth lleiafrifol ac ystod
o lywodraethau clymbleidiol ers
etholiadau cyntaf 1999

CWESTIWN 13

Tasg: Ewch ati i greu diagram tebyg yn nodi effeithiau negyddol posib y system



PWNC TRAFOD:

A yw'n beth da bod nifer mawr o bleidiau gwleidyddol yn cael eu cynrychioli mewn corff deddfwriaethol?

A large, empty rectangular area with a light yellow background and a thin black border, intended for the student to provide their answer to the question.

CWESTIWN 14

Eglurwch gan roi enghreifftiau beth yw ystyr y term 'rhannu'r bleidlais'.

CWESTIWN 15

Eglurwch gan roi enghreifftiau beth yw ystyr y term 'gwleidyddiaeth gonsensws'.

CWESTIWN 16

Eglurwch gan roi enghreifftiau beth yw ystyr y term 'llywodraeth leiafrifol'.

PLEIDLAIS SENGL DROSSLWYDDADWY

CWESTIWN 17

Pe bai rhywun yn siarad am y system ethol PSD am 60 eiliad, pa dermau ydych chi'n rhagweld y byddai'r person hwn yn debygol o'u defnyddio yn ystod yr araith? Nodwch 10 term ac yna gofynnwch i bartner baratoi araith i weld a yw eich syniadau yn cyfateb.

GWYRIAD O GANLYNIAD CYFRANNOL (*Deviation from proportionality*)

CORFF ETHOLEDIG	SYSTEM ETHOLIADOL	BLWYDDYN YR ETHOLIAD	GWYRIAD O GANLYNIAD CYFRANNOL (%)
Tŷ'r Cyffredin	CYYR	2010	23
Senedd Ewrop	Rhestr	2009	18
Senedd yr Alban	SAY	2007	13
Cynulliad Cymru	SAY	2007	19
Cynulliad Gogledd Iwerddon	Pleidlais Sengl Drosoglwyddadwy	2007	7

CWESTIWN 18

'Mae cyfranoldeb (proportionality) yn bwysicach na nodweddion eraill wrth benderfynu pa mor effeithiol yw systemau etholiadol y DU.' Trafodwch.

CWESTIWN 19

Eglurwch gryfderau llywodraeth glymbleidiol.

SYSTEM RHESTRAU CAEËDIG

O dan y system hon rydych yn pleidleisio dros blaid ac nid dros ymgeiswyr unigol. Y pleidiau sy'n dewis yr ymgeiswyr ac ym mha drefn maent yn ymddangos ar y rhestrau ar y papur pleidleisio, hynny yw pwy yw rhif 1,2,3,4. Mae yn gyfle felly i'r pleidiau hyrwyddo menywod a lleiafrifoedd ethnig gan eu gosod yn uwch ar y rhestrau.

CANLYNIADAU ETHOLIADAU SENEDD EWROP 2009 A 2014**2009**

PLAID	PLEIDLAIS (%)	SEDDI	SEDDI (%)
Ceidwadwyr	27.7	25	37.7
UKIP	16.5	13	18.8
Llafur	15.7	13	18.8
Dem Rhydd	13.7	11	15.9
Gwyrdd	8.1	2	2.9
BNP	6.2	2	2.9
SNP	2.1	2	2.9
Plaid Cymru	0.8	1	1.4

2014

PLAID	PLEIDLAIS (%)	SEDDI	SEDDI (%)
Llafur	25.40	20	28.5
Ceidwadwyr	23.93	19	27.1
Gwyrdd	7.87	3	4.3
SNP	2.46	2	2.9
Dem Rhydd	6.87	1	1.4
Plaid Cymru	0.71	1	1.4
BNP	1.14	0	0
UKIP	27.49	24	

Gan gynnwys Gogledd Iwerddon, yn 2016 roedd gan y Deyrnas Unedig 73 Aelod yn y Senedd Ewrop. Mae'r 73 yma yn cynnwys 4 aelod o Gymru; 10 o Dde Ddwyrain Lloegr, 6 o'r Alban. Mae'r etholaethau felly yn fawr ac yn rhanbarthol eu natur. O dan y drefn hon roedd 12 etholaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

CWESTIWN 20

Ymchwiliwch i ba bleidiau enillodd gynrychiolaeth yng Nghymru.

CWESTIWN 21

Eglurwch gan roi enghreifftiau beth yw ystyr y term 'cyswllt etholaethol'.

CWESTIWN 22

Eglurwch wendidau llywodraeth glymbleidiol.

CWESTIWN 23**Tasg: Cymharu Systemau Etholiadol**

Yn y tabl isod ceir nodweddion dymunol am y system etholiadol. Edrychwch ar y nodweddion a blaenoriaethwch pa nodweddion ydych yn teimlo sydd fwyaf dymunol. Wedi gwneud hynny ystyriwch berfformiad y tair system wahanol yn erbyn y nodweddion yma. Rhowch 5 marc os yw'r system yn cyflawni'r nodwedd yn effeithiol iawn neu 0 os nad yw'n cyflawni o gwbl.

Cewch roi unrhyw farc rhwng 0-5 os ydych yn teimlo bod y system yn rhannol gyflawni ei nod.

	CYYR	SYSTEM AELODAU YCHWANEGOL	PLEIDLAIS SENGL DROSGLWYDDADWY
Cyfrannol			
Pob pleidlais yn gyfartal			
Dim pleidleisiau gwastraff			
Osgoi'r angen am bleidleisio'n dactegol			
Syml ac yn hawdd deall			
Creu llywodraeth gref			
Mwyafrifol			
Cyswllt etholaethol agos			
Sicrhau nad oes gan bleidiau bach ormod o bŵer			
Pleidiau bach yn cael cynrychiolaeth deg			
Sicrhau bod llywodraeth amhoblogaidd yn colli pŵer yn gyfangwbl			
Creu llywodraeth glymbleidiol			
Rhoi dewis i bleidleiswyr			
Annog canran bleidleisio (<i>turnout</i>) gwell			
Helpu menywod a lleiafrifoedd ethnig i ennill cynrychiolaeth yn y strwythurau seneddol			
Cyfanswm	/75	/75	/75

DIWYGIO'R SYSTEM ETHOLIADOL

'I say; to Hell with PR, long live first past-the-post, and safeguard, for the people, the right to kick into outer space a government they dislike.'

Boris Johnson, yr Ysgrifennydd Tramor yn 2018, ddywedodd hyn tra oedd yn Faer Llundain dros y Ceidwadwyr yn 2008

'Proportional representation prevents voters from kicking out an unpopular government and leads to extremist and minority parties being elected with as little as 5% of the vote.'

Oliver Heald, Llefarydd yr Wrthblaid ar Faterion Cyfansoddiadol, Mehefin 2005

'I have repeatedly made clear that I would welcome constructive engagement with any serious political party about introducing proportional representation. I believe it would strengthen our democracy by making parliament more directly accountable to individual voters. A government elected by proportional representation would have a clearer and more authoritative mandate. Tactical voting would become a thing of the past.'

Charles Kennedy, Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar y pryd mewn llythyr at y Prif Weinidog, Mai 2005

CWESTIWN 24

Dyma rai diffiniadau hanesyddol yn amlinellu agweddau'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol tuag at ddiwygio etholiadol. Ymchwiliwch i agweddau'r prif bleidiau gwleidyddol tuag at ddiwygio etholiadol heddiw. Beth yw barn arweinwyr y prif bleidiau gwleidyddol am CYFR? Beth yw eu hagweddau at systemau mwy cyfrannol?

Cynhaliwyd refferendwm yn 2011 lle rhoddwyd y cyfle i bleidleiswyr newid o CYFR i system etholiadol y Bleidlais Amgen. Nid yw'r Bleidlais Amgen yn system gyfrannol ond mae'n gadael i bleidleiswyr fynegi eu hoffter o ymgeiswyr yn nhrefn 1,2,3, yn hytrach na rhoi un X ar y papur pleidleisio.

CWESTIWN 25

i: Sut oedd y pleidiau gwleidyddol gwahanol yn ymgyrchu adeg y refferenda hynny?


ii: Beth yw eu safbwyntiau nawr? Comisiynodd y Blaid Lafur sawl adroddiad ar systemau etholiadol – Adroddiad Plant, Adroddiad Jenkins. Byddwch yn ymwybodol o'r hyn ddywedwyd yn yr adroddiadau hyn.

iii: Pam na wnaeth y Blaid Lafur weithredu ar yr argymhellion?

iv: Pa feini prawf (*criteria*) ddylen ni eu defnyddio er mwyn penderfynu a oes angen diwygio'r system etholiadol? Dywed Comisiwn Jenkins fod yna bedwar maen prawf:

1. Cynnal y cyswllt etholaethol.
2. Cyfrannol i ryw raddau (*broad proportionality*).
3. Rhoi dewis i bleidleiswyr.
4. Llywodraeth sefydlog.

Oes system sy'n bodloni pob un o'r meini prawf uchod? Pa system sy'n bodloni'r rhan fwyaf ohonynt?



Grŵp sydd yn bendant o blaid newid y system etholiadol yw'r Gymdeithas Newid Etholiadol. Edrychwch ar eu gwefan i weld ei dadleuon: www.electoral-reform.org.uk

VOTE NO TO AV ON MAY 5th

“ The 'Alternative Vote' is an unfair, expensive and discredited system, that allows candidates who finish third to steal elections. On May 5th, I urge you to vote No to AV. ”



THE CURRENT VOTING SYSTEM ✓

Everybody has one vote

The candidate that receives the most votes win

The most widely used system in the world

Cheap, simple counting process

Results announced on election night

THE PROPOSED AV SYSTEM ✗

People's votes count differently, with supporters of extreme parties like the BNP getting their vote counted many more times than everyone else

The candidate who finishes third can steal the election

Only used in 3 countries – Fiji, Australia and Papua New Guinea

Long, complicated process, which would cost the taxpayer millions

Counting can take days and days

Printed by Alan Mabbott on behalf of the Conservative Party, both of 30 Millbank, London SW11 1DS & printed by Renault Print, Units 6 & 7 Two Gates Trading Estate, Welling Street, Tamworth, Staffordshire B77 5AC

Y CEIDWADWYR A DIWYGIO ETHOLIADOL

Yn hanesyddol, mae'r Ceidwadwyr wedi bod yn gefnogwyr brwd o CYYR. Yn ddiweddar, mae rhai wedi dadlau bod angen i'r blaid newid ei hagwedd bositif tuag at y system.

CWESTIWN 26

Gwerthuswch y dadleuon yn y tabl isod gan ysgrifennu paragraff o grynodedb yn dweud a ydych yn credu y dylai'r Ceidwadwyr fod yn fwy parod i ystyried diwygio etholiadol.

O BLAID	YN ERBYN
<p>Yn yr Etholiadau Cyffredinol diwetha' mae'r system wedi dangos tuedd (<i>bias</i>) yn erbyn y Ceidwadwyr. Amcangyfrifwyd yn 2005 hyd yn oed pe bai Llafur wedi ennill 33.8% o'r bleidlais gyffredinol bydden nhw wedi ennill dros 100 o seddi yn fwy na'r Ceidwadwyr. O ran Etholiad 2015 mae'r dadansoddwyr yn dweud y gallai'r Blaid Lafur fod wedi cael mwyafrif seneddol ar sail 33% o'r bleidlais yn unig.</p>	<p>Y Blaid sydd fwyaf tebygol o elwa o ddiwygio etholiadol yw'r Democratiaid Rhyddfrydol. Er clymblaid Clegg/Cameron, yn y tymor hir cred rhai fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn fwy tebygol o ffurfio partneriaeth gyda'r Blaid Lafur.</p>
<p>Byddai buddugoliaeth Geidwadol yn y dyfodol yn cael ei hatal gan yr un fath o bleidleisio tactegol a gollodd seddi iddyn nhw yn 1997 a 2001. Byddai hyn yn anoddach i'w wneud o dan system Cynrychiolaeth Gyfrannol.</p>	<p>Byddai rhyw fath o Gynrychiolaeth Gyfrannol yn gweld y Ceidwadwyr yn colli pleidleisiau i bleidiau eraill asgell-dde fel UKIP. a'r BNP Gallai hefyd arwain at raniad a sefydlu plaid newydd sydd o blaid neu yn erbyn Ewrop. Byddai hynny'n colli mwy o bleidleisiau i'r Blaid Geidwadol.</p>
<p>Mewn etholiadau lle mae rhyw fath o Gynrychiolaeth Gyfrannol yn cael ei defnyddio, mae'r Ceidwadwyr wedi gwneud yn dda; hyd yn oed yn 'ennill' yn etholiadau Senedd Ewrop yn 2004.</p>	<p>Yn hanesyddol mae Cyntaf yn y Ras wedi gwasanaethu'r Blaid yn dda ac fe fydd unwaith eto yn y dyfodol. Roedd y pleidleisio tactegol yn erbyn y Ceidwadwyr wedi lleihau yn sylweddol yn 2005/2010 a chafodd mwyafrif Llafur ei lleihau yn gymharol ddramatig.</p>
<p>Roedd canran Llafur o'r bleidlais yn isel yn yr etholiadau diweddar oherwydd canran isel y bleidlais (<i>turnout</i>) ymysg ei phleidleiswyr traddodiadol. Mae'n bosib y bydden nhw'n fwy parod i bleidleisio pe bai'n gystadleuaeth agosach a hynny'n annog mwy i bleidleisio.</p>	

AGWEDD Y PLEIDIAU TUAG AT DDIWYGIO ETHOLIADOL**CWESTIWN 27**

A ddylai'r Ceidwadwyr gefnogi Diwygio Etholiadol?

CWESTIWN 28

Nodwch isod ble mae'r prif bleidiau ar hyn o bryd o ran eu hagwedd tuag at ddiwygio etholiadol.

O BLAID	YN ERBYN